WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllunio i Ryddhau Cleifion – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**


Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 256A2017-18

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Kate Febry, Delyth Lewis a Gabrielle Smith.

# Cynnwys

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella llif cleifion a'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae trefniadau rheolaidd ar waith i graffu ar berfformiad; fodd bynnag, mae lle i wella'r polisi a'r llwybrau rhyddhau cleifion.


Adroddiad cryno

Y Cefndir 4

Y Prif Ganfyddiadau 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, a pholisïau a mentrau gwella i gefnogi'r cynlluniau hynny 8

Mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi proses brydlon i ryddhau cleifion 19

Ceir trefniadau i graffu'n rheolaidd ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, sy'n sicrhau bod aelodau bwrdd yn teimlo'n hyddysg, ac er y bu gwelliannau o ran perfformiad, mae mwy o waith i'w wneud o hyd 29

Atodiadau

Atodiad 1 – Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd. 38

Atodiad 2 – methodoleg archwilio 40

Atodiad 3 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion 42

Atodiad 4 – gweithgarwch a gyflawnir gan y timau cyswllt rhyddhau cleifion 46

# Adroddiad cryno

## Y Cefndir

1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir, ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig er mwyn sicrhau llif cleifion da ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG.

2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu ganslo derbyniadau cynlluniedig.

3 Bob blwyddyn ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau na darpariaeth gymhleth. I'r 20% sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenon iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.

4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.

5 Er gwaethaf y llu o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,[1] [2] [3] dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni (yr Uned Gyflawni) GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:

- gweithio'n well gyda gwasanaethau cymunedol;
- nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
- mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau[4]; a
- gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

[1] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005), **Hospital Discharge Planning** Guidance, 2005/035 [Saesneg yn unig]

[2] Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (2008), **Passing the Baton**

[3] Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (2015), **Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs**

[4] Gall llwybrau rhyddhau penodol nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau penodol o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau’n ddiogel ac yn brydlon.

6 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn **'Passing the Baton'** (gweler Troednodyn 2). Mae'r canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn dangos bod tystiolaeth ysgrifenedig yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn wael gan amlaf o'i hasesu yn erbyn arferion disgwyliedig. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn Atodiad 2.

7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.

8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn Atodiad 2. Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y Bwrdd Iechyd:

- wedi sefydlu fframwaith cynllunio strategol cadarn er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
- wedi cymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau; ac
- wedi gwneud trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion.

9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o waith addasu tai. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn, yn nhymor yr hydref 2017.

# Y Prif Ganfyddiadau

10 Dyma ein casgliad cyffredinol: **mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella llif cleifion a'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae trefniadau ar waith i graffu ar berfformiad yn rheolaidd; fodd bynnag, mae lle i wella'r polisi a'r llwybrau rhyddhau cleifion.** Nodir ein sail resymegol yn y paragraffau isod.

11 **Cynllunio**: mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, a pholisïau a mentrau gwella i gefnogi'r cynlluniau hynny.

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu nifer o gynlluniau i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion;
- mae lle i atgyfnerthu agweddau ar y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion y tro nesaf y caiff ei ddiweddaru; a
- gellid cyfleu'r camau ar y llwybr rhyddhau cleifion yn well.

12 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion**: mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi proses brydlon i ryddhau cleifion:

- mae tîm cyswllt rhyddhau cleifion ar gael i gefnogi achosion rhyddhau cymhleth;
- ymddengys y ceir defnydd da o'r lolfa ryddhau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl; ac
- mae staff y ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi proses ryddhau brydlon, a darparwyd hyfforddiant ar hyn yn ddiweddar i'r tîm cyswllt rhyddhau.

13 **Monitro ac adrodd**: ceir trefniadau i graffu'n rheolaidd ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, sy'n sicrhau bod aelodau bwrdd yn teimlo'n hyddysg, ac er y bu gwelliannau o ran perfformiad, mae mwy o waith i'w wneud o hyd:

- ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, a threfniadau i graffu'n rheolaidd ar berfformiad o safbwynt strategol a gweithredol er mwyn canfod rhesymau dros oedi ac ymdrin â'r rhesymau hynny;
- bydd ystod o wybodaeth yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Bwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn hyddysg yn y maes; ac
- mae perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn gwella, ond mae mwy o waith i'w wneud er mwyn lleihau'r oedi cyn trosglwyddo gofal, a byrhau arosiadau yn yr ysbyty a'r amser aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

# Argymhellion

14 O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi cyflwyno sawl argymhelliad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, lle nodir sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Dangosyn 1: argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | **Y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion:** Mae ein hasesiad o bolisi'r Bwrdd Iechyd yn dangos y gellid ei atgyfnerthu y tro nesaf y bydd hi'n bryd ei adolygu. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys:<br>• taflen rhyddhau cleifion;<br>• rhestr wirio wrth ryddhau cleifion;<br>• y gweithdrefnau uwchgyfeirio;<br>• trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau asesu clinigol;<br>• dolenni electronig i'r Protocol ar gyfer Rhyddhau Cleifion ag Anghenion Tai o'r Ysbyty, y Protocol Dewis Llety a Fframwaith Gofal Parhaus y GIG; a<br>• siart lif neu goeden benderfyniadau er mwyn helpu i benderfynu a yw achos o ryddhau yn achos syml neu gymhleth, a'r llwybr i'w ddilyn. |
| A2 | **Llwybr Rhyddhau**: nid yw camau'r llwybr rhyddhau wedi'u nodi'n glir yn y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• nodi pob llwybr rhyddhau ar ffurf dilyniant o gamau clir;<br>• sicrhau bod yr holl lwybrau ar gael yn yr un man - fel y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion, gan gynnwys dolenni mewn polisïau/canllawiau eraill cysylltiedig; a<br>• sicrhau bod staff yn gwybod sut i gyrchu llwybrau rhyddhau cleifion. |
| A3 | **Taflen i gleifion**: Addasu'r daflen i gleifion mewn ysbytai cymunedol fel ei bod yn berthnasol i gleifion sydd yn aros mewn ysbytai acíwt, gan nodi'r canlynol:<br>• gwybodaeth am y broses ryddhau,<br>• sut y bydd y claf a'r teulu'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses ryddhau;<br>• trefniadau y gallai fod angen i'r claf eu gwneud (fel trefnu cludiant);<br>• gwybodaeth am ofal dilynol; a'r<br>• broses gwynion. |
| A4 | **Monitro perfformiad neu gydymffurfiaeth:** er bod Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion y Bwrdd Iechyd a'i ddrafft o'r Polisi Rhyddhau Cleifion yn cynnwys ystod o fesurau ansoddol a meintiol i fonitro cydymffurfiaeth, nid yw'r mesurau perfformiad hyn wedi cael eu hadrodd yn systematig wrth y Bwrdd na'i bwyllgorau eto. Dylai'r Bwrdd adrodd ar y mesurau hyn yn rheolaidd. |

# Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, a pholisïau a mentrau gwella i gefnogi'r cynlluniau hynny

## Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o gynlluniau ar waith i wella cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion

15 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cyfleu'n glir ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu ymgorffori cynlluniau i wella prosesau rhyddhau cleifion. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru [5] hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau'r nifer o bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.

16 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. O fewn y Bwrdd Iechyd, mae nifer o raglenni a chynlluniau wedi'u sefydlu i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a'r llif cleifion. Yn 2013, sefydlodd y Bwrdd Iechyd y prosiect 'Ffocws ar Lif' er mwyn canfod rhwystrau ac achosion o oedi yn y system iechyd a gofal cymdeithasol, a chanfod ffyrdd o barhau i fyw'n annibynnol, osgoi derbyn i'r ysbyty, lleihau arosiadau yn yr ysbyty a chynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. Mae'r prosiect yn parhau ac wedi arwain at weithredu sawl menter, gan gynnwys:

- protocolau uwchgyfeirio lleol newydd;
- cyflwyno system newydd i reoli gwelyau yn fyw;
- cynnydd yn nifer y gwelyau llawfeddygol arhosiad byr;
- cyfarfod llif cleifion ddwywaith yn ystod y dydd ar bob safle ysbyty;
- rhawdiau ward dyddiol; a
- lolfa ryddhau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

17 Nodir prif gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion yn y cynllun tymor canolig integredig (CTCI) a'r cynllun gofal heb ei drefnu. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r prif fentrau ar gyfer gwella llif cleifion, gan gynnwys:

- mesur effaith ystod o ymyraethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi ynddynt, i gefnogi gofal wedi'i drefnu;
- datblygu model a chynllun gwelyau sy'n anelu i ailgydbwyso gofal heb ei drefnu a gofal wedi'i drefnu ar draws system Cwm Taf er mwyn helpu i greu system gofal heb ei drefnu sy'n fwy cynaliadwy; a
- datblygu cynigion ar gyfer opsiynau eraill cymunedol yn lle derbyn i'r ysbyty, ac i gefnogi trefniadau i ryddhau cleifion ynghynt gyda chefnogaeth briodol.

[5] Llywodraeth Cymru 2016, **Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20** [Saesneg yn unig]


18 Yn 2014, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) Ddatganiad o Fwriad i integreiddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn yn y rhanbarth. Nododd sefydliadau eu bwriad i gydweithio i ddarparu gwasanaethau i bobl ag anghenion cymhleth, gan ganolbwyntio ar atal, hunanreoli ac ailalluogi. Roedd y Datganiad Cydgomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn 2015-25 yn sefydlu strategaeth drosfwaol i gefnogi trefniadau i gydgomisiynu gwasanaethau i bobl hŷn, yn seiliedig ar gynlluniau ac amcanion cyffredin.

19 Yn 2015, datblygodd y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredu ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal ar y cyd â chydweithwyr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo yn y modd mwyaf effeithlon bosib, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, er mwyn cael gwared ag achosion o oedi.

20 Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn gwerthuso llwyddiant ei Gynllun Gaeaf ar gyfer 2016-17, ar gyfer rheoli pwysau ar ofal heb ei drefnu (gan gynnwys iechyd meddwl) rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Mae'r Cynllun, a ddatblygwyd ar y cyd â CBSRhCT, CBSMT ac Ymddiriedolaeth y GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn nodi'r cyfrifoldebau a'r camau gweithredu er mwyn ymdrin â chynnydd yn y galw dros y gaeaf, er mwyn cynnal llif cleifion drwy'r system ysbytai.

21 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau neu drosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn Nangosyn 2 gwelir bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal. O fewn y Bwrdd Iechyd, ystyriwyd mai anaml neu weithiau y byddai'r ffactorau hyn yn cyfrannu at oedi, tra bo mwy o broblemau'n codi oherwydd anghydfod teuluol, digartrefedd a materion bariatrig. Bydd rhai achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd gan fod cleifion a'u teuluoedd yn dymuno aros am le mewn cartref gofal penodol (yn hytrach na bod y claf yn cael ei ryddhau i gartref gofal arall ac ynddo ddigon o le). Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno trefniadau gwell i fonitro'r Polisi Dewis drwy ddefnyddio cydgysylltydd cleifion i adolygu'r broses o ryddhau cleifion i gartrefi gofal, ac wedi datblygu cynllun gweithredu i wella gweithdrefnau yn y maes hwn.

Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017[6]

22 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r ddiweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Cronfa gyfun a gyflwynwyd yn 2014-15 yw'r CGI, ac o ran llif cleifion, mae'n ariannu cynlluniau i atal derbyniadau i'r ysbyty, i gefnogi annibyniaeth pobl hŷn ac i leihau achosion o OwDG. Cafodd y gronfa ei rhyddhau fel cronfa untro yn unig i ddechrau, ond yn 2015-16, fe'i newidiwyd yn gronfa gylchol. Mae'r CGI wedi cael ei defnyddio i gefnogi sawl menter er mwyn cryfhau cynlluniau i ryddhau cleifion ac osgoi derbyn cleifion ar draws Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf. Defnyddiwyd yr arian i gefnogi'r canlynol, er enghraifft:

- datblygu a gweithredu tîm rhyddhau cleifion cymhleth gan gynnwys mewnbwn gan Nyrsys Cyswllt Rhyddhau Cleifion a Gweithwyr Cymdeithasol. Roedd rôl newydd cydgysylltwyr rhyddhau cleifion yn ganolog i'r tîm rhyddhau achosion cymhleth, sef cynorthwyo i symleiddio'r broses asesu, a gweithredu fel y ddolen gyswllt rhwng iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am gleifion.
- datblygu a gweithredu gwasanaeth rhyddhau cleifion yn fuan gyda chymorth i gleifion â strôc ysgafn i gymedrol, a all ddychwelyd adref ynghynt gyda chefnogaeth ddwys.

[6] Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

- datblygu a gweithredu gwasanaeth asesu ac ymateb integredig amlddisgyblaeth ac amlasiantaeth, Cadw'n Iach Gartref, i gynnal asesiadau cychwynnol er mwyn atal derbyniadau diangen o adrannau damweiniau ac achosion brys neu unedau penderfynu clinigol neu gynnal asesiadau integredig o achosion rhyddhau cymhleth fel bo modd rhoi cefnogaeth i gleifion ddychwelyd i leoliad yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn gweithredu 12 awr y dydd a phob dydd o'r wythnos. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried sut y bydd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth.

## Mae lle i atgyfnerthu agweddau ar y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion y tro nesaf y caiff ei ddiweddaru

23 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.

24 Adolygwyd polisi'r sefydliad ar ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal drwy ddefnyddio matrics aeddfedrwydd[7]. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn asesu 17 o elfennau'r polisi, gan ddyfarnu sgôr i bob elfen o un (llai datblygedig) hyd at dri (datblygedig iawn). Yn Nangosyn 3 gwelir ein hasesiad o bolisi'r Bwrdd Iechyd ar Gynllunio i Ryddhau Cleifion a'i ddrafft o'r Protocol Rhyddhau Cleifion yn erbyn y matrics aeddfedrwydd. Gwelsom yn ein hasesiad nad oedd nifer fach o'r elfennau wedi'u datblygu i'r un graddau â'r gweddill, gan sgorio ond un pwynt, ac y gellid eu cryfhau drwy gynnwys:

- taflen rhyddhau i gleifion a gofalwyr;
- rhestr wirio wrth ryddhau cleifion;
- gweithdrefnau uwchgyfeirio arferol;
- trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau penderfyniad clinigol;
- dolenni electronig i'r Protocol ar gyfer Rhyddhau Cleifion ag Anghenion Tai o'r Ysbyty, y Protocol Dewis Llety a Fframwaith Gofal Parhaus y GIG; a
- siart lif neu goeden benderfyniadau er mwyn helpu i benderfynu a yw achos o ryddhau yn syml neu gymhleth, a'r llwybr i'w ddilyn.

[7] Mae ein matrics aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn 2008.

Dangosyn 3: Perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da y polisi rhyddhau cleifion

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Polisi rhyddhau aml-asiantaeth | 3 | Datblygwyd y polisi gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n cyfeirio at ymagwedd aml-asiantaeth â'r awdurdodau lleol a'r trydydd sector.<br>Yn sail ar gyfer y polisi, ceir drafft o brotocol ar y cyd ar ryddhau cleifion o'r ysbyty, gan y Bwrdd Iechyd a'r ddau awdurdod lleol sydd yn rhannu'r un ffiniau ag ef. Mae'n egluro disgwyliadau'r holl asiantaethau o ran asesu'n brydlon a rhyddhau'n ddiogel o leoliadau ysbyty ar draws ardal Cwm Taf. |
| Adolygwyd y polisi o fewn y flwyddyn ddiwethaf | 3 | Cadarnhaodd y tîm Gweithredol y polisi ym mis Medi 2016. Caiff y polisi ei adolygu a'i ddiweddaru bob tair blynedd, a bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf ym mis Medi 2019. |
| Cynnwys cleifion/gofalwyr | 2 | Cyfeirir at bwysigrwydd anghenion cleifion a gofalwyr yn y polisi, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cleifion na'u cynrychiolwyr wedi'u cynnwys wrth ddatblygu'r polisi.<br>Ar ben hynny, dengys dadansoddiad y Bwrdd Iechyd o'r adborth a geir drwy brofiadau cleifion nad yw gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses cynllunio gofal a rhyddhau cleifion. |
| Cyfathrebu | 3 | Nodir yn y polisi fod y polisi'n ystyriol o'r anghenion cyfathrebu a ganlyn:<br>• Dulliau Cyfathrebu Hygyrch i Bobl sydd wedi Colli Synhwyrau<br>• Anghenion ieithyddol – dehonglydd<br>• Unrhyw anghenion sydd gan y claf, y teulu neu'r gofalwyr o ran diwylliant neu gyfathrebu |
| Gwybodaeth | 1 | Ni chyfeirir yn y polisi at ddarparu gwybodaeth/arweiniad i gleifion a gofalwyr. Dywedodd staff ward wrthym eu bod yn darparu gwybodaeth ar lafar i gleifion a gofalwyr, a bod ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig. Mae gan y Bwrdd Iechyd daflen cleifion i gleifion mewn Ysbytai Cymunedol, ond ddim ar gyfer cleifion mewn Ysbytai Acíwt. |

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref | 3 | Rhoddir canllawiau penodol yn y polisi i gleifion ag anghenion tai, ac fe reolir y broses ryddhau'n unol â'r Protocol Rhyddhau Cleifion ag Anghenion Tai.<br>Sylwch mai un o flaenoriaethau'r CTCI ar gyfer 2017-18 yw gweithredu Protocol Ysbyty Cwm Taf ar gyfer Rhyddhau Cleifion ag Anghenion Tai yn CBSMT a CBSRhCT. |
| Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol | 2 | Yn ôl y polisi, dylid dechrau'r llwybr rhyddhau cleifion cyn derbyn os oes modd. |
| Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf. | 3 | Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh) cyn gynted ag sy'n bosibl cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf i ysbyty cyffredinol dosbarth. Nodir y dyddiad ar system Myrddin (system gweinyddu cleifion) ac ar yr offeryn cynllunio i ryddhau cleifion (offeryn rhyddhau ADRh o'r ysbyty i'r cartref). Mae'n rhaid i ysbytai gynnal asesiad cychwynnol a chytuno ar amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen pedwar diwrnod. |
| Osgoi Aildderbyn | 1 | Nid yw ond yn cyfeirio at rôl bosib y trydydd sector o ran rhoi cymorth i atal cleifion rhag cael eu haildderbyn. |
| Cytundebau a phrotocolau lleol | 3 | Mae'r polisi'n cyfeirio at weithdrefnau lleol, fel y protocol ar y cyd ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, y Protocol ar gyfer Rhyddhau Cleifion ag Anghenion Tai o'r Ysbyty, y Protocol Dewis Llety a Fframwaith Gofal Parhaus y GIG. |
| Asesu | 3 | Nodir yn y proses y dylid dilyn y broses asesu integredig ar gyfer achosion rhyddhau cymhleth er mwyn canfod a fydd y claf yn cael ei ryddhau adref wedi'i gefnogi gan becyn gofal, yn cael ei drosglwyddo i gyfleuster gofal canolraddol, preswyl, neu arbenigol neu i gartref nyrsio. Bydd y cleifion hynny yr asesir bod angen iddynt barhau i dderbyn gofal nyrsio wedi'i ariannu gan y GIG yn dilyn fframwaith Gofal Parhaus y GIG.<br>Nid oes unrhyw gyfeiriad at y ffaith y gellid bod angen cynnal asesiad galluedd meddyliol. |

| Elfennau a aseswyd | Sgôr | Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi |
|---|---|---|
| Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys | 1 | Nid yw'r polisi ond yn berthnasol wrth dderbyn cleifion mewnol. Ni chyfeirir at y broses ar gyfer rheoli cleifion a gaiff eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys nac o unedau penderfynu meddygol/clinigol. |
| Cysylltiadau â'r polisi dewis llety | 3 | Pan geir anawsterau wrth ryddhau cleifion o gyfleuster gofal y GIG i ddewis cyntaf y claf o gartref gofal, dylai'r ysbyty, gwasanaethau cymdeithasol a staff cymunedol weithio gyda'r claf a'i deulu er mwyn canfod opsiwn arall addas. Dylid gwneud hyn yn unol â'r Protocol Dewis Llety. |
| Rhyddhau'n syth o'r ysbyty i gartref gofal parhaol | 1 | Nid yw'r polisi'n cyfeirio'n benodol at y drefn arferol o beidio trosglwyddo cleifion yn syth o'r ysbyty i gartref gofal parhaol, er bod y Protocol Dewis Llety yn gwneud hynny. |
| Opsiynau Gofal | 1 | Ar wahân i ganlyniadau posibl asesiad integredig (gweler 'asesiad' uchod), nid yw'r polisi'n rhoi disgrifiad o opsiynau gofal penodol. |
| Prosesau uwchgyfeirio | 2 | Cyfeirir yn y polisi at y ffaith bod gan y Pennaeth Nyrsio/Rheolwyr Cyfarwyddiaeth gyfrifoldeb i ddatblygu gweithdrefnau uwchgyfeirio sy'n rhoi disgrifiad clir o'r ffactorau fydd yn ysgogi cymorth a chamau ychwanegol pan geir achosion o oedi. |
| Protocolau Rhyddhau Hygyrch | 2 | Yn nrafft y protocol rhyddhau sydd yn sail i'r polisi ceir enghraifft o achosion rhyddhau syml a chymhleth. Er ei fod yn cynnwys diagram llif, mae'r diagram hwnnw'n trafod atgyfeiriadau i dderbyn asesiad gofal cymdeithasol ac asesiad therapi. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, 2017

25 Nid yw'r Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion yn pennu amser pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau neu eu trosglwyddo o wardiau cleifion mewnol, na'r amser pan y dylai hynny ddigwydd. Gofynnwyd i'r staff pryd oedd yr adeg hwyraf y byddai cleifion yn cael eu rhyddhau. Dywedodd staff wrthym fod modd rhyddhau cleifion yn hwyr yn y dydd ar yr amod eu bod yn iach yn gorfforol ac yn feddyliol. Fodd bynnag, dywedodd un rheolwr ward nad oedd hi'n arfer cyffredin rhyddhau cleifion oedrannus yn hwyr yn y dydd. Dywedodd staff ward hefyd wrthym fod cleifion yn cael eu rhyddhau bob dydd o'r wythnos, onid yw'n fwy priodol cadw'r claf yn yr ysbyty, er enghraifft os nad yw'r gwasanaeth cymunedol sydd ei angen ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener.

26 Mewn polisïau a gweithdrefnau dylid diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer rhyddhau cleifion yn ddiogel a phrydlon. Drwy wneud hynny, gwneir defnydd effeithiol o sgiliau a gwybodaeth, a bydd aelodau unigol o staff yn cael eu dwyn i gyfrif am eu rôl yn y broses. Yn y polisi rhyddhau dylid hefyd bennu'r safonau ar gyfer yr holl staff sy'n gyfrifol am ryddhau cleifion. Mae 'Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion' y Bwrdd Iechyd yn cynnwys egwyddorion arweiniol ac amlinelliad clir o rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd am ryddhau cleifion ar draws y sefydliad a'r awdurdodau lleol, a sefydliadau'r trydydd sector y maent yn comisiynu gwasanaethau ganddynt.

## Gellid cyfleu'r camau ar y llwybr rhyddhau cleifion yn well

27 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgysylltu barhau. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.

28 Yn rhan o'n gwaith, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd ar waith. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws sefydliad, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gydag awdurdodau lleol partner, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau.

29 Mae'r Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion yn cyfeirio at lwybr rhyddhau a llwybr rhyddhau cymhleth, ond nid yw'r rhain wedi'u nodi ar ffurf cyfres o gamau. Yn lle hynny, nodir amrywiaeth eang o gamau yn y polisi a'r Polisi Rhyddhau ar y Cyd, fel pennu'r dyddiad rhyddhau a ragwelir. Yr hyn a ddisgwylir yw y bydd cleifion yn cael eu rhyddhau adref heb unrhyw gefnogaeth, neu eu rhyddhau adref gyda phecyn gofal, eu trosglwyddo i gyfleuster gofal canolraddol, preswyl neu arbenigol, neu i gartref nyrsio. Mae'r Protocol Rhyddhau ar y Cyd yn cynnwys diagram llif i atgyfeirio cleifion i'w hasesu ar gyfer gofal cymdeithasol neu therapi.

30 Buom yn adolygu'r polisi a'r protocol drafft yn erbyn yr elfennau a nodir yn Nangosyn 4. Mae'r ddwy ddogfen yn trafod llawer o elfennau y byddem yn disgwyl eu gweld ar lwybr rhyddhau, ond gellid cyfleu'r dilyniant o gamau yn well. Er bod y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion yn cyfeirio at lwybrau rhyddhau, roedd safbwynt rheolwyr ward ynghylch eu bodolaeth yn fwy cymysg. Dywedodd un rheolwr ward wrthym fod llwybrau rhyddhau wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol. Yn lle hynny, byddai rheolwyr ward yn aml yn cyfeirio at ddefnyddio amcan y dyddiad rhyddhau a'r rhestr wirio ar gyfer rhyddhau yn sail ar gyfer cynllunio a phenderfynu pa gamau i'w cymryd.

Dangosyn 4: elfennau a aseswyd yn gysylltiedig â'r dilyniant o gamau a ddisgwylir ar lwybr rhyddhau

| Elfennau a aseswyd | Trafodwyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| Diagram llif/coeden benderfyniadau er mwyn nodi cleifion priodol | Nac ydy | Pwrpas y diagram llif yw atgyfeirio i dderbyn mewnbwn therapiwtig gan ffisiotherapydd neu therapydd galwedigaethol, neu i'r awdurdod lleol er mwyn derbyn asesiad cymhwyso i dderbyn gofal cymdeithasol. |
| Mae'r prosesau atgyfeirio yn glir | Ydy | Fel uchod.<br>Os oedd claf yn derbyn gofal yn y cartref cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, a'i fod yn treulio llai na phedair wythnos yn yr ysbyty, ac nad oes unrhyw newid i'w gyflwr na'i anghenion, dylid ailgychwyn y pecyn gofal cyn pen 48 awr ar ôl i staff ward gadarnhau'r dyddiad rhyddhau o'r ysbyty gyda'r asiantaeth gofal berthnasol. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes angen gwneud unrhyw atgyfeiriadau i'r pwynt mynediad sengl. |
| Cyrchfan rhyddhau benodol ee man preswylio arferol | Nac ydy | Nodir yn y polisi fod disgwyl i'r claf gael ei ryddhau adref wedi'i gefnogi gan becyn gofal, ei drosglwyddo i gyfleuster gofal canolraddol, preswyl neu arbenigol, neu i gartref nyrsio. |
| Pwrpas clir i'r llwybr | Nac ydy | |
| Llwybr cyffredinol neu lwybr ar gyfer cyflwr penodol | Cyffredinol | Mae'r broses yn berthnasol i'r holl achosion rhyddhau. |
| Logisteg trafnidiaeth neu drosglwyddo wedi'u cydnabod yn glir | Ydy | Nodir yn y polisi y disgwylir i'r rhieni wneud eu trefniadau eu hunain lle bo modd. |
| Yn berthnasol ar draws yr holl safleoedd ysbyty | Ydy | Bydd staff ward, gan gynnwys staff meddygol, mewn ysbytai cyffredinol dosbarth yn defnyddio eu barn broffesiynol i gyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol eraill. Fodd bynnag, mewn ysbytai cymunedol, gwneir penderfyniadau ynghylch atgyfeirio gan y tîm amlddisgyblaeth neu mewn cyfarfodydd llif cleifion. |
| Yn berthnasol bob awr o'r dydd, bob dydd o'r flwyddyn | Ydy | Nodir yn y polisi fod disgwyl i gleifion gael eu rhyddhau bob dydd o'r wythnos. |
| Wedi'i ddatblygu gydag awdurdodau lleol partner, ac yr un mor berthnasol i'r holl bartneriaid | Ydy | Datblygwyd y protocol drafft ar gyfer rhyddhau cleifion ar y cyd â phartneriaid awdurdod lleol. |
| Wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid y GIG, ee byrddau iechyd lleol cyfagos, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru neu Felindre | Nac ydy | |
| Wedi'i gefnogi gan ddogfennau rhyddhau cyffredinol | Ydy | Rhestr wirio ar gyfer rhyddhau. |

| Elfennau a aseswyd | Trafodwyd | Sylwadau |
|---|---|---|
| Wedi'i gefnogi gan ddogfennau asesu cyffredinol | Ydy | Disgwyliad y bydd asesiad integredig yn cael ei gwblhau. |
| Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth asesu anghenion | Ydy | Disgwylir ymateb cyn pen 24 awr ynghylch atgyfeiriadau i therapïau yn ystod yr wythnos waith. Dylid brysbennu atgyfeiriadau a dderbynnir gan bwynt mynediad sengl (SPA) yr awdurdod lleol o fewn diwrnod. Os yw'r atgyfeiriad ar gyfer gofal canolraddol neu ailalluogi, ar ôl i'r SPA ei frysbennu, fe'i trosglwyddir i'r gwasanaeth weithredu yn ei gylch cyn pen dau ddiwrnod gwaith.<br>Lle bo'r broses ryddhau'n fwy cymhleth, a'r claf yn cael ei atgyfeirio i'w asesu gan weithwyr cymdeithasol, mae'n rhaid ymateb o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl dyrannu'r achos, tra dylid cwblhau asesiadau cychwynnol cyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl dyrannu'r achos. |
| Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth ddarparu gwasanaethau | Yn rhannol | Os yw'r achos rhyddhau yn syml, ond bod y claf yn cael ei asesu ar gyfer gofal canolraddol neu ailalluogi, caiff y gwasanaeth fel arfer ei gynllunio i gychwyn o fewn diwrnod os ceir cais amdano cyn 3pm. |
| Safonau cytunedig ar gyfer ansawdd a diogelwch | Nac ydy | Er bod y protocol rhyddhau drafft yn nodi'r broses ar gyfer cofnodi ac ymchwilio i achosion rhyddhau a ystyrir yn anniogel. |
| Safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau | Nac ydy | |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Bolisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion a Phrotocol Rhyddhau ar y Cyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

31 Ni chyfeirir o gwbl at lythyrau rhyddhau na'r safonau a ddisgwylir. Yn flaenorol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi adrodd bod a wnelo'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau a adroddwyd gan bractisau meddyg teulu ag ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth a rannwyd rhwng gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, yn enwedig ansawdd llythyrau rhyddhau cleifion. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd sawl cam i ymdrin â'r mater, gan gynnwys gweithredu'r llythyr electronig ar gyfer hysbysu ynghylch rhyddhau cleifion. Ym mis Awst 2017, roedd fersiwn electronig y llythyr hysbysu ynghylch rhyddhau yn weithredol ar bob ward acíwt a chymunedol, ar wahân i wardiau mamolaeth, iechyd meddwl a llawfeddygaeth dydd. Adroddwyd nifer o welliannau, gan gynnwys bod y llythyr yn fwy eglur, fod newidiadau i feddyginiaethau wedi'u cofnodi, fod llai o wallau presgripsiynu ac amser wedi'i arbed. Nid yw'r system, fodd bynnag, wedi cael unrhyw effaith ar lif cleifion, nac wedi newid yr amser pan fydd cleifion yn gadael yr ysbyty. Ni wnaethom asesu ansawdd na phrydlondeb gwybodaeth am ryddhau a adolygir gan AGC.

32 Mae gan y Bwrdd Iechyd daflen cleifion i gleifion i gleifion sy'n aros yn ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd. Nid oes taflen gyfatebol i gleifion sy'n aros mewn ysbytai acíwt.

33 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau yn y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.

34 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu[8] [9]. Mae hynny'n golygu rhyddhau cleifion i fynd adref pan fônt yn 'feddygol' iach i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.

35 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau.

36 Mae Protocol Rhyddhau drafft y Bwrdd Iechyd yn cyfleu'n glir y dylid asesu cleifion pan dybir eu bod yn ddigon iach i gymryd rhan yn yr asesiad, yn hytrach na disgwyl i'w hasesu pan fônt yn feddygol iach. Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu cynnwys ar restr drosglwyddo pan fyddant ynn feddygol iach i'w rhyddhau. Gall aelodau uwch o'r staff nyrsio cymunedol gyrchu'r rhestr drosglwyddo hon er mwyn helpu i sicrhau bod modd trefnu i ryddhau rhai cleifion. Y mae hefyd yn cynnwys rhestr o gleifion a allai fod yn disgwyl cael eu trosglwyddo i'r ysbytai cymunedol.

[8] Llywodraeth Cymru (2010), **Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned – Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflawni**

[9] Llywodraeth Cymru (2011), **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy**

# Mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae staff ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn cefnogi proses brydlon i ryddhau cleifion

## Mae tîm cyswllt rhyddhau cleifion ar gael i gefnogi achosion rhyddhau cymhleth


37 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.

38 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn cynnal un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achoson rhyddhau syml a chymhleth.

39 O fewn y Bwrdd Iechyd, ceir un tîm sy'n cynnwys pum nyrs gofrestredig cyfwerth ag amser llawn (CALl) sydd yn rheoli achosion rhyddhau cymhleth ar draws yr holl ysbytai. Bydd aelodau'r tîm yn gweithio ar gylchdro ar draws yr holl ysbytai, a bydd aelod o'r tîm ar gael ar bob safle bob dydd. Yn weithredol, mae'r tîm yn rhan o strwythur rheoli ardal y Bwrdd Iechyd, gyda llinellau atebolrwydd at y nyrs arweiniol ar gyfer gofal iechyd parhaus a gofal a ariennir gan nyrsys y GIG. Mae'r tîm yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm. Ar benwythnosau, disgwylir i staff ward gyflymu cynlluniau rhyddhau y cytunwyd arnynt eisoes, gan barhau i gynllunio i ryddhau cleifion er mwyn osgoi arosiadau diangen yn yr ysbyty a gwella llif cleifion.

40 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn Nangosyn 5 gwelir y gwahanol aelodau staff proffesiynol sy'n ffurfio timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Ledled Cymru, dim ond pedwar tîm sy'n amlddisgyblaethol, ac mae gweddill y timau'n cynnwys staff nyrsio. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint ledled Cymru, rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a 29 aelod o staff CALl, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty; roedd y timau'n cynnwys saith aelod staff CALl ar gyfartaledd.

Dangosyn 5: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrannwyd i dimau cyswllt rhyddhau yng Nghymru ar 30 Medi 2016




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017[10].

41 Ceir mewnbwn gan gydgysylltwyr gwaith cymdeithasol a rhyddhau cleifion i gefnogi tîm rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd, gan greu dolen gyswllt rhwng staff awdurdodau lleol a staff y Bwrdd Iechyd, i hyrwyddo trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth am ofal cleifion.

42 Cyfanswm cost 13 o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau oedd £2.9 miliwn, ac roedd costau'r timau'n amrywio rhwng £43,000 a £692,000. O fewn y Bwrdd Iechyd, cost y tîm cyswllt rhyddhau cleifion rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016 oedd £237,000 o gymharu â chyfartaledd Cymru (£244,000).

43 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt rhyddhau oddi mewn i sefydliadau'r GIG/rhwng gwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r pymtheg tîm cyswllt rhyddhau ar draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau â nifer yr aelodau staff CALl. Roedd nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng

[10] Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu timau cyswllt rhyddhau. Mae tri bwrdd iechyd – Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr – yn gweithredu timau ar wahân ar gyfer pob safle ysbyty. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth dimau cyswllt rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn. Mae'r aelodau eraill o staff yn cynnwys staff gweinyddol a fferyllwyr, er enghraifft.

50 a 250; ar gyfartaledd, roedd 117 o gleifion yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALl. Nid oes gennym wybodaeth am nifer yr achosion o ryddhau a reolwyd gan dîm cyswllt rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd, felly ni allwn wneud unrhyw sylwadau ynghylch nifer yr achosion o ryddhau fesul aelod staff CALl.

44 Gofynnwyd i dimau cyswllt rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Mae Atodiad 4 yn dangos y graddau y mae timau cyswllt rhyddhau yn cyflawni ystod o weithgareddau ledled Cymru, o gyflawni'r gweithgareddau hynny bob amser hyd at beidio byth â'u cyflawni. Yn Nangosyn 6 gwelir pa mor aml y bydd tîm cyswllt rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r amrywiaeth o weithgareddau. Er bod y tîm yn rheoli'r holl achosion rhyddhau cymhleth, dim ond weithiau y bydd yn sicrhau bod cynlluniau rhyddhau cleifion unigol wedi'u sefydlu i gleifion ag anghenion cymhleth. Ar draws Cymru, roedd 87% o dimau cyswllt rhyddhau bob amser neu'n aml yn cyflawni'r gweithgaredd hwn o gymharu ag 13% oedd yn ei gyflawni weithiau. Tîm y Bwrdd Iechyd oedd yr unig dîm nad oedd yn cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth yn aml er mwyn canfod y llwybr rhyddhau mwyaf priodol i gleifion. Ledled Cymru, roedd 73% o'r timau cyswllt rhyddhau yn cyflawni'r gweithgaredd hwn bob amser neu'n aml.

Dangosyn 6: pa mor aml y bydd tîm cyswllt rhyddhau cleifion y Bwrdd Iechyd yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

| Pa mor aml y bydd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau |
|---|
| **Yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol bob tro** |
| • Cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau'n llwyddiannus o'r ysbyty, a lleihau'r achosion o ail-dderbyn hyd yr eithaf. |
| • Cynnig un man cyswllt i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y broses o gynllunio i ryddhau cleifion. |
| • Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai. |
| • Dilysu data ar oedi cyn trosglwyddo gofal |
| • Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion yn brydlon. |
| • Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion. |
| **Yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol yn aml** |
| • Cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi wrth gael eu rhyddhau. |
| • Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd. |
| • Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref. |
| **Weithiau'n cyflawni'r gweithgareddau canlynol** |
| • Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol wedi'u sefydlu i gleifion ag anghenion cymhleth wrth eu rhyddhau. |
| **Yn cyflawni'r gweithgareddau canlynol yn anaml** |

| Pa mor aml y bydd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau |
| --- |
| • Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth er mwyn canfod y llwybr rhyddhau mwyaf priodol i gleifion. |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.

## Ymddengys y ceir defnydd da o'r lolfa ryddhau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl

45 Gall lolfa ryddhau hefyd gefnogi cynlluniau rhyddhau cleifion a llif cleifion effeithiol drwy gynnig amgylchedd addas lle gall cleifion ddisgwyl i berthnasau, neu drafnidiaeth yr ysbyty, eu codi. Bydd hynny'n golygu bod gwelyau'n cael eu rhyddhau'n brydlon i dderbyn cleifion eraill. Bydd rhai cleifion hefyd yn cael eu hanfon i'r lolfa wrth ddisgwyl i'r fferyllfa ddosbarthu eu meddyginiaeth.


46 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelsom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai acíwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau; capasiti cyfartalog pob lolfa ryddhau oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.

47 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu lolfa ryddhau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gall y lolfa ryddhau gynnwys chwe chlaf, gan gynnwys un claf a allai fod angen gwely wrth ddisgwyl cael ei ryddhau. Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, cafodd 3,400 o gleifion a oedd yn cael eu rhyddhau eu rheoli drwy'r lofa ryddhau, sydd gyfwerth ag oddeutu 13 o gleifion bob dydd. Nid oes lolfa ryddhau ffurfiol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Pa fydd staff ar gael, gellir gweithredu lolfa ryddhau anffurfiol ar ochr un ward.

48 Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynghylch trefniadau staffio, costau a gweithgarwch y lolfeydd rhyddhau. Roedd yr wybodaeth hon yn fwy cyflawn na'r wybodaeth ar gyfer y timau cyswllt rhyddhau. Mae nifer y staff a ddefnyddir ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai yn amrywio rhwng llai nag un aelod staff CALl a phum aelod staff CALl; y cyfartaledd oedd tri aelod staff CALl. Cyfanswm cost 12 o'r 14 o lolfeydd rhyddhau oedd £1 miliwn rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, ac roedd costau gwasanaethau unigol yn amrywio rhwng £25,000 a £139,000. Mae gwasanaeth y lolfa ryddhau o fewn y Bwrdd Iechyd yn costio llai na chyfartaledd Cymru (£64,000 o gymharu ag £86,600).

49 Yn Nangosyn 7, gwelir bod y gost am bob claf a ryddhawyd, ac a gefnogwyd drwy'r lolfa ryddhau, yn amrywio rhwng £12 a £74 fesul claf. Yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, £18,90 oedd y gost fesul claf a ryddhawyd o gymharu â'r cyfartaledd o £28.50 ar gyfer lolfeydd rhyddhau.

Dangosyn 7: cymhariaeth o'r gost am bob claf a ryddhawyd ac a reolwyd gan lolfeydd rhyddhau unigol rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017[11]

50 Unwaith eto, buom yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau, ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, â nifer yr aelodau staff CALl. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan naw o'r 14 o lolfeydd rhyddhau, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff CALl yn amrywio rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, rhwng ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALl hyd at ychydig dros 2,000 fesul aelod staff CALl (Dangosyn 8). Yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, cefnogodd y lolfa ryddhau 1,694 gleifion fesul aelod staff CALl o gymharu â chyfartaledd Cymru o 1,000 o gleifion fesul aelod staff CALl.

51 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu lolfa ryddhau anffurfiol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Nid oes staff penodol ar gyfer y gwasanaeth, gan mai ystafell ochr oddi ar ward ydyw, ac ni ellir ond ei defnyddio pan fo lefelau staff y ward yn ddigonol.

[11] Cawsom wybodaeth oddi wrth 14 o lolfeydd rhyddhau, ond dim ond 8 ffurflen a ddychwelwyd oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gymharu'r gost fesul claf a ryddhawyd o'r lolfa ryddhau.

Dangosyn 8: nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALl), ac a gefnogwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbytai rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau mewn ysbytai, 2017 (Gweler Troednodyn 11)

## Mae staff y ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi proses ryddhau brydlon, a darparwyd hyfforddiant yn ddiweddar gan y tîm cyswllt rhyddhau cleifion

52 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. Mae angen i'r staff feddu ar ddealltwriaeth dda o bolisïau a llwybrau rhyddhau, mynediad at lefelau priodol o hyfforddiant, a gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i'r gymuned er mwyn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion.

### Anaml y cafwyd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn y gorffennol, ond mae'r tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn darparu hyfforddiant fesul cam

53 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni ymsefydlu, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fater i bawb.

54 Yn Nangosyn 9 gwelir mai ond hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau yn rhaglenni ymsefydlu'r nyrsys, ac sydd yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. O fewn y Bwrdd Iechyd, nid yw cynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys yn rhan o raglenni cynefino dechreuwyr newydd, a bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei gynnal bob dwy flynedd o leiaf. Ar adeg ein gwaith archwilio, dywedodd rheolwyr ward wrthym eu bod yn rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, a oedd yn cael ei ddarparu gan y timau cyswllt rhyddhau cleifion. Dywedodd rheolwyr ward wrthym fod ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol yn darparu hyfforddiant ad hoc yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion.

Dangosyn 9: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

| Sefydliad y GIG | Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys yn rhaglenni cynefino dechreuwyr newydd | Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu |
|---|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | Nac ydy | Ydy |
| Aneurin Bevan | Nac ydy | Nac ydy |
| (ysbytai) Betsi Cadwaladr | | |
| • Ysbyty Gwynedd | Ydy | Ydy |
| • Wrecsam Maelor | Ydy | Ydy |
| • Glan Clwyd | Ydy | Nac ydy |
| Caerdydd a'r Fro | Nac ydy | Ydy |
| **Cwm Taf** | **Nac ydy** | **Ydy** |
| Hywel Dda (timau sirol) | | |
| • Sir Benfro | Ydy | Nac ydy |
| • Ceredigion | Nac ydy | Nac ydy |
| • Sir Gaerfyrddin | Nac ydy | Ydy |
| Powys | Nac ydy | Nac ydy |
| Felindre | Ydy | Ydy |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 6)

Mae staff y ward yn hyderus ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi trefniadau i ryddhau cleifion yn brydlon o'r ysbyty

55 Yn ei adolygiad, gwelodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'[12] a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn cyfarfod â rheolwyr ward a phenaethiaid nyrsio i siarad am broblemau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion ar lefel y ward.

56 Roedd rheolwyr ward y buom yn ymweld â hwy yn deall eu rôl yn glir, a hefyd yn deall rôl eu tîm, wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, un o'r prif ffactorau a oedd yn atal cleifion rhag cael eu rhyddhau'n brydlon oedd yr amser yr oedd ei angen i gynllunio hynny. Dyma heriau eraill y cyfeiriwyd atynt:

- oedi wrth ailgychwyn pecynnau gofal i'r cleifion hynny sydd eisoes yn eu derbyn, hynny yw o fewn 48 awr ar ôl rhyddhau'r claf;
- heb wybod pwy i siarad â hwy mewn asiantaethau eraill (y GIG a'r awdurdod lleol) ynghylch cleifion sy'n byw y tu allan i ardal Cwm Taf;
- yr amser a gymerir i neilltuo gweithiwr cymdeithasol;
- gweithwyr cymdeithasol yn amharod i asesu cleifion nes y bônt yn feddygol iach;
- teuluoedd a chleifion yn newid eu meddwl ynghylch pa gefnogaeth sydd ei hangen ar ôl rhyddhau'r claf neu anghytuno ynghylch y gefnogaeth a gynigir;
- canfyddiad y teulu a'r claf mai'r ysbyty yw'r lle gorau i aros nes bo'r claf yn teimlo'n gwbl iach;
- anawsterau wrth gael cyngor neu gefnogaeth ar y penwythnos i gleifion ag anghenion tai; a
- prinder lleoliadau byrdymor neu hirdymor ar gyfer cleifion cymharol ifanc.

57 Yn dilyn adolygiad yr Uned Gyflawni o gynlluniau rhyddhau cleifion, cymerwyd sawl cam i gefnogi trefniadau i ryddhau'n fwy prydlon, gan gynnwys:

- cyfarfodydd safle wythnosol i drafod cleifion sydd wedi aros yn yr ysbyty am gyfnod hir;
- yr uwch nyrsys yn cynnal ymchwiliadau manwl gyda staff ward er mwyn trafod pob claf ar ward i sicrhau bod amcan y dyddiadau rhyddhau wedi'u cytuno, ac i ddeall y rhesymau dros unrhyw oedi tebygol cyn rhyddhau cleifion;
- sefydlwyd y gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref (gweler paragraff 22);
- cafodd fersiwn electronig y llythyr hysbysu ynghylch rhyddhau claf ei gweithredu;
- cyflwynwyd un pwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau i ofal cymdeithasol; a
- bydd gweinyddwr gwasanaethau cymdeithasol o CBSRhCT yn adolygu'r holl atgyfeiriadau gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth briodol yn cael ei chynnwys cyn cyflwyno'r atgyfeiriad, ac er mwyn canfod pa becynnau gofal a allai fod ar waith eisoes.

[12] Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

58 Dywedodd rheolwyr ward fod y ffocws cynyddol ar gynllunio i ryddhau cleifion yn helpu i newid y diwylliant o ran cynllunio i ryddhau, a bod staff y ward yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros ryddhau cleifion o'r ysbyty yn fwy prydlon. Yn ystod cyfarfodydd â rheolwyr ward, cafwyd cyfeiriadau mynych at y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion. Dywedodd rheolwyr ward wrthym fod staff nyrsio yn hyderus bod cleifion yn cael eu rhyddhau pan fônt yn barod, a bod staff yn teimlo eu bod yn gallu herio penderfyniadau a wneir gan weithwyr proffesiynol eraill a allai fod eisiau cadw'r claf yn yr ysbyty.

59 Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo rhyddhau cleifion cyn 12pm, a bydd cleifion sy'n barod i'w rhyddhau yn cael eu trosglwyddo i'r lolfa ryddhau (os oes lolfa ar gael) yn unol â'r protocolau gweithredol lleol. Yn ôl cyfweliadau â rhai rheolwyr ward, mae rhai wardiau'n anelu i ryddhau cleifion erbyn 2pm. Dywedodd rhai rheolwyr ward wrthym eu bod wedi arbrofi gyda threfniadau rhyddhau cleifion yn seiliedig ar feini prawf ar y penwythnosau, gan anelu i sicrhau bod modd rhyddhau cleifion yn brydlon pan oeddent yn feddygol iach.

60 Roedd staff a gyfarfuom yn hyderus y gellid rhoi cleifion ag anghenion gofal diwedd oes ar lwybr cyflym bob dydd os oedd angen. Yn y cyfamser, mae 50 o weithwyr gofal cartref yr awdurdod lleol wedi cael eu hyfforddi i gefnogi trefniadau rhyddhau cyflym.

### Caiff gwybodaeth am ofal cymdeithasol a'r sector annibynnol ei chasglu'n rheolaidd i gefnogi trefniadau rhyddhau cleifion

61 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. Yn Nangosyn 10 gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin.

Dangosyn 10: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

| | Ystod y gwasanae-thau | Argaeledd gwasanae-thau | Meini Prawf Cymhwys-tra | Y broses atgyfeiri-o | Amser aros ar gyfer asesiad anghenion | Amser aros i wasanaeth-au gychwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd ei hun | 8 | 8 | 9 | 9 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Gwasanaethau gofal cymdeithasol | 9 | 9 | 9 | 10 | 6 | 3 |
| Y Trydydd Sector | 10 | 8 | 10 | 8 | 3 | 2 |
| Opsiynau tai | 4 | 2 | 4 | 6 | 2 | 2 |
| Y Sector annibynnol ee gwelyau mewn cartrefi gofal | 7 | 6 | 9 | 9 | 2 | 2 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 6)

62 Ar sail ymateb y Bwrdd Iechyd i'n harolwg, mae ganddo wybodaeth dda iawn am ystod ac argaeledd gwasanaethau a ddarperir gan y sector gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol, a hefyd am ei wasanaethau cymunedol ei hun. Cesglir gwybodaeth yn electronig ac â llaw yn ddyddiol ac yn wythnosol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector annibynnol.

63 Gofynnwyd i staff ward faint yr oeddent yn ei wybod am yr ystod o wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Dywedwyd wrthym gan reolwyr y wardiau fod ganddynt ddealltwriaeth o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael, ac os ydynt yn ansicr, eu bod yn gofyn i'r Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion am gymorth. Mae gan y Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion ymwybyddiaeth dda o'r gwasanaethau sydd ar gael.

# Ceir trefniadau i graffu'n rheolaidd ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, sy'n sicrhau bod aelodau bwrdd yn teimlo'n hyddysg, ac er y bu gwelliannau o ran perfformiad, mae mwy o waith i'w wneud o hyd

## Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, a threfniadau i graffu'n rheolaidd ar berfformiad o safbwynt strategol a gweithredol er mwyn canfod rhesymau dros oedi ac ymdrin â'r rhesymau hynny

64 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.

65 O fewn y Bwrdd Iechyd, caiff y cyfrifoldeb strategol dros gynllunio i ryddhau cleifion ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd a'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, ac mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi'n glir yn y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion. Fforwm o uwch reolwyr yw'r Grŵp Cyflenwi Gofal Heb ei Drefnu. Mae'n adrodd wrth y Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd. Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae'r Grŵp Cyflenwi Gofal Heb ei Drefnu yn cyfarfod bob mis i oruchwylio'r broses o ddatblygu a gweithredu trefniadau cynllunio'r gaeaf, datblygu'r cynllun gofal heb ei drefnu, ystyried themâu trawsbynciol ar gyfer gofal heb ei drefnu a chamau gweithredu yn gysylltiedig â gofal heb ei drefnu i'w cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig.

66 Ar bob safle ysbyty, mae nifer o drefniadau ar waith er mwyn craffu ar berfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd o amgylch y gwelwyd ddwy waith y dydd ar y ddau safle, er mwyn cyfuno pob agwedd ar lif cleifion, gan gynnwys asesu'r galw a'r capasiti. Cefnogir y cyfarfodydd hyn gan uwch nyrsys ar bob safle acíwt, yn ogystal ag aelodau eraill allweddol o staff a all gymryd camau priodol. Bydd materion a gaiff eu huwchgyfeirio o'r cyfarfodydd hyn a'r alwad gynadledda ddyddiol a gynhelir ar draws y safleoedd yn cael eu trosglwyddo i'r lefel briodol o fewn y sefydliad, fel y nodir yn y polisi uwchgyfeirio. Caiff materion uwchgyfeirio sy'n ymwneud â safleoedd eu hadrodd ar ddangosfwrdd gweladwy ar y fewnrwyd, er mwyn hysbysu cynifer o staff ag sy'n bosibl ynghylch y pwysau o fewn y sefydliad. Bydd timau rheoli gwelyau yn y ddau ysbyty acíwt yn cefnogi'r gwaith o gynnal a rheoli gwelyau cleifion mewnol o ddydd i ddydd.

67 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd wythnosol ar ryddhau cleifion. Bydd uwch nyrsys y, therapyddion galwedigaethol a staff ffisiotherapi yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny. Trafodir achos pob claf ag arhosiad hwy na naw diwrnod, er mwyn canfod a oes unrhyw gamau priodol y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau bod y claf yn cael ei ryddhau'n brydlon. Dywedodd y Bwrdd

Iechyd wrthym fod aelodau priodol o staff awdurdod lleol yn bresennol pan fo'r gwasanaethau awdurdod lleol yn creu rhwystr o fewn y system. Dywedodd staff wrthym fod ganddynt berthnasoedd gwaith da ag aelodau staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol os oes angen uwchgyfeirio materion.

68 Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol yn cyfarfod bob is i drafod yr achosion mwyaf cymhleth o oedi cyn trosglwyddo gofal. Yn y cyfarfodydd hyn, gwneir penderfyniadau ynghylch pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion.

## Cyflwynir amrywiaeth o wybodaeth yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn rheolaidd gerbron y Bwrdd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo eu bod yn hyddysg yn y maes

69 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, ar gyfer sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.

70 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.

71 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau fydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Yn Nangosyn 11 gwelir y dangosyddion perfformiad a'r diweddariadau a adroddwyd wrth Bwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu Cwm Taf drwy'r dangosfwrdd perfformiad integredig.

Dangosyn 11: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd wrth y Bwrdd yn ystod 2016-17

| Cynllunio i ryddhau cleifion | Llif cleifion |
|---|---|
| a. Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal mewn cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau iechyd eraill.<br>b. Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 10,000 o boblogaeth yr awdurdod lleol ym maes iechyd meddwl (pob oed).<br>c. Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 10,000 o boblogaeth yr awdurdod lleol mewn meysydd iechyd eraill (75+ oed). | a. Canran y cleifion y gohiriwyd eu triniaeth ar fwy nag un achlysur am resymau nad oeddent yn glinigol, gyda llai nag 8 diwrnod o rybudd, ac a gynhaliwyd wedi hynny o fewn 14 diwrnod calendr neu ar y dyddiad cynharaf a oedd yn gweddu i'r claf.<br>b. Canran y cleifion sy'n disgwyl am 4 awr neu lai yn yr adran damweiniau ac achosion brys.<br>c. Nifer y cleifion yn disgwyl am 12 awr neu fwy yn yr adran damweiniau ac achosion brys.<br>d. Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud.<br>e. Nifer drosglwyddiadau ambiwlans mewn awr.<br>f. Nifer y trosglwyddiadau ambiwlans o fewn 15 munud.<br>g. Canran y cleifion a arhosodd am lai na 26 wythnos am driniaeth ddewisol.<br>h. Canran y cleifion a arhosodd lai na 26 wythnos am driniaeth.<br>i. Nifer y cleifion a arhosodd dros 36 wythnos am driniaeth.<br>j. Yr hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau meddygol brys.<br>k. Oedi wrth drosglwyddo gofal o ofal critigol.<br>l. Cyfradd y derbyniadau i'r ysbyty fel achos brys ar gyfer cyfres o wyth cyflwr cronig fesul 100,000 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd.<br>m. Cyfradd y derbyniadau lluosog (o fewn blwyddyn) i'r ysbyty fel achos brys ar gyfer cyfres o wyth cyflwr cronig fesul 100,000 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd. |

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

72 Mae Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd yn darparu:

- dealltwriaeth dda o'r rhesymau a'r heriau sy'n effeithio ar lif cleifion ar draws safleoedd ysbyty;
- y tueddiadau mewn perfformiad a'r rhesymau dros amrywio mewn perfformiad; a'r
- camau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad o ran cynllunio i ryddhau cleifion a'r llif cleifion.

73 Ar wahân i gwynion a phryderon, fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth am brofiadau cleifion o'r broses ryddhau yn cael ei hadrodd wrth y Bwrdd neu ei bwyllgorau, er i reolwyr ward ddweud wrthym eu bod yn gofyn i gleifion am adborth. Ni chaiff pryderon ynghylch cynllunio i

ryddhau cleifion a godir drwy'r drefn gwynion neu ddigwyddiadau eu hadrodd mewn modd systematig na'u cynnwys fel dangosydd allweddol.

74 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. O blith aelodau bwrdd Cwm Taf a ymatebodd i'n harolwg, gwelsom fod:

- hanner ohonyn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y Bwrdd a'i bwyllgorau'n craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 56%;
- roedd pawb yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n amharu ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 75%; a
- roedd pawb yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn eu sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%.

75 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu am eu systemau gweinyddu cleifion. Yn Nangosyn 12 gwelir bod systemau gweinyddu cleifion y rhan fwyaf o sefydliadau yn gallu casglu ystod o ddata sydd o gymorth wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth. Cesglir yr holl feysydd data o fewn y Bwrdd Iechyd, ac eithrio a yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth. Mae gwybodaeth am berfformiad ar gael ar y dangosfwrdd fesul safle ysbyty, ond nid oedd yr wybodaeth honno ar gael ar lefel y ward ar adeg ein hadolygiad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio 'Diwrnodiau Gwely Coch a Gwyrdd'[13], sef system reoli weledol sy'n helpu i ganfod achosion o wastraffu amser ar daith y claf.

[13] Mae'r diwrnodiau lle nad yw'r claf yn derbyn unrhyw brofion na thriniaethau diagnostig wedi'u lliwio'n goch, tra bo'r dyddiau lle na fydd y claf ond yn derbyn gwasanaeth y gall yr ysbyty ei ddarparu wedi'u lliwio'n wyrdd.

Dangosyn 12: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

| Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau | Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol |
|---|---|
| Dyddiad rhyddhau disgwyliedig | 12 |
| Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Amser rhyddhau o'r ysbyty | 12 |
| Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref preswyl, cartref gofal ac ati. | 12 |
| Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau | 8 |
| A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth | 5 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 6)

76 Mae'r Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion a drafft y Protocol Rhyddhau yn cynnwys ystod o fesurau ansoddol a meintiol i fonitro cydymffurfio, er mwyn sicrhau bod safonau prydlondeb ac ansawdd yn cael eu bodloni, a sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal priodol. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys: profiad cleifion a gofalwyr o'r trefniadau ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty; amser rhyddhau a nifer y cleifion a gaiff eu rhyddhau fesul diwrnod, pa mor aml y cofnodir amcan o'r dyddiad rhyddhau ar system Myrddin, ansawdd yr wybodaeth wrth atgyfeirio achosion i therapyddion, a'r gofal cymdeithasol a'r amseroedd ymateb ar ôl atgyfeirio. Fodd bynnag, mae'r mesurau perfformiad hyn yn dal heb gael eu hadrodd yn systematig gerbron y Bwrdd a'i bwyllgorau.

## Mae perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion yn gwella, ond mae mwy o waith i'w wneud er mwyn lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, a byrhau arosiadau yn yr ysbyty a'r amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys

77 Cynhaliodd yr Uned Gyflawni ei hadolygiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yn y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2016. Ers hynny, gwelwyd arwyddion o welliant ar draws nifer fach o fesurau perfformiad yn gysylltiedig â rhyddhau cleifion a llif cleifion, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

78 Yn Nangosyn 13 gwelir bod cyfanswm yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal[14] (ac eithrio'r rhai mewn cyfleusterau iechyd meddwl) wedi gostwng 2% o 343 yn 2015-16 i 336 yn 2016-17.

[14] Yn ogystal â hyn, ar drydydd dydd Mercher y mis, bydd cyfrifiad yn cael ei gynnal o'r cleifion mewnol sydd yn barod i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu gofal ond sy'n cael eu hatal rhag gwneud hynny.

Ar sail ffigurau OwDG ar gyfer hanner cyntaf 2017-18, mae niferoedd yr achosion o OwDG yn debygol o fod yn debyg iawn i'r flwyddyn gynt. Cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer y cleifion a wynebodd oedi o fwy na thair wythnos cyn cael eu rhyddhau (22%), ond mae data ar gyfer hanner cyntaf 2017-18 yn awgrymu bod y nifer sy'n wynebu oedi hir ar gynnydd.

Dangosyn 13: nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2017-18

| Hyd yr oedi | Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal | | |
|---|---|---|---|
| | 2015-16 (Ebrill – Mawrth) | 2016-17 (Ebrill – Mawrth) | 2017-18 (Ebrill – Medi) |
| 0-3 wythnos | 206 | 219 | 83 |
| 4-6 wythnos | 71 | 61 | 33 |
| 7-12 wythnos | 35 | 32 | 27 |
| 13-26 wythnos | 19 | 20 | 19 |
| 26+ wythnos | 12 | 4 | 3 |
| Cyfanswm yr achosion o OwDG | 343 | 336 | 165 |


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o **gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru**, Hydref 2017

79 Cofnodir y risg o oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai acíwt ar gofrestr risg y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targed o beidio â chael mwy na 12 achos o OwDG fesul mis or ysbytai acíwt. Dengys yr wybodaeth a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg a'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a'r Gweithlu fod y Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd a chynnal y targed hwn ers dros flwyddyn. Mae nifer yr achosion o OwDG ar ei uchaf yn yr ysbytai cymunedol.

80 Mae Dangosyn 14 yn dangos y duedd yn nifer yr achosion o OwDG (ac eithrio achosion mewn cyfleusterau iechyd meddwl) ers mis Ebrill 2015. Gwelir mân amrywio bob mis, ac ni welir y cynnydd sydyn yn y niferoedd a gofnodwyd ym mis Chwefror 2016 yn cael ei ailadrodd. Mae'r duedd OwDG ar gyfer hanner cyntaf 2017-18 yn cyd-fynd yn fras â'r duedd yn 2015-16.

81 Rhesymau gofal iechyd oedd i gyfrif am dros draean (33%) o'r achosion o oedi o fewn y Bwrdd Iechyd yn 2015-16, a phriodolwyd pumed ran (20%) ohonynt i resymau gofal iechyd. Yn 2016-17, roedd cyfran yr achosion o oedi a briodolwyd i resymau gofal cymunedol a gofal iechyd wedi cynyddu, i 39% yn y naill achos a 25% yn y llall. Mae'r achosion o oedi a briodolwyd i resymau gofal cymunedol a gofal iechyd yn hanner cyntaf 2017-18 wedi gostwng. Fodd bynnag, mae nifer a chyfran yr achosion o oedi sy'n codi wrth ddisgwyl am le mewn cartref gofal a ddewiswyd ar gynnydd, ynghyd ag oedi oherwydd bod angen diogelu oedolion diamddiffyn, neu'r ffaith na ellir rhyddhau cleifion i le diogel, a rhesymau eraill, fel amharodrwydd cleifion i adael.

Dangosyn 14: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2017





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gronfa ddata GIG Cymru ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal, Hydref 2017

82 Ni ddylai unrhyw glaf aros dros 12 awr mewn adran damweiniau ac achosion brys, i gael ei dderbyn, ei drosglwyddo neu ei ryddhau. Yn ôl adborth a gafwyd yn ddiweddar yn Adroddiad Ansawdd y Bwrdd Iechyd (Medi 2017), mae'r cleifion yn anfodlon â'r amseroedd aros hir yn yr adran damweiniau ac achosion brys. Os bydd cleifion yn aros am 12 awr neu fwy mewn Adran damweiniau ac achosion brys, mae hynny'n aml yn arwydd o broblemau yn gysylltiedig â llif cleifion. Ym mhrif adrannau damweiniau ac achosion brys y Bwrdd Iechyd, cafwyd cynnydd o 28% rhwng 2015-16 a 2016-17 yn nifer y cleifion a oedd wedi gorfod aros am 12 awr neu fwy. Y ffigur ar gyfer Cymru gyfan oedd 23%. Cafwyd gostyngiad bach iawn (0.2%), yn nifer yr ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys dros y cyfnod hwn, ond ledled Cymru cafwyd cynnydd o lai nag 1% yn nifer yr ymweliadau. Mae'n rhy fuan i asesu effaith y tîm Cadw'n Iach Gartref o ran lleihau amseroedd aros yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys, drwy helpu i osgoi derbyniadau a galluogi rhyddhau'n uniongyrchol o adrannau argyfwng ac achosion brys i wasanaethau eraill mwy priodol. Fodd bynnag, bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu gwerthuso'r gwasanaeth a'i effeithiau dros y misoedd nesaf.

83 Mae Dangosyn 15 yn cymharu cyfran y cleifion sy'n disgwyl am 12 awr neu fwy yn Adrannau damweiniau ac achosion brys y Bwrdd Iechyd â chyfartaledd Cymru. Mae perfformiad wedi bod yn gwella ac yn well na chyfartaledd Cymru ar y cyfan, gydag adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cyrraedd y targed yn rheolaidd dros yr haf.


Dangosyn 15: cyfran y cleifion a arhosodd dros 12 awr yn yr adran damweiniau ac achosion brys rhwng mis Ebrill 2015 a mis Medi 2017 o gymharu â chyfartaledd y prif adrannau damweiniau ac achosion brys yng Nghymru




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o **Berfformiad yn erbyn y targed amser aros o 12 awr fesul ysbyty**, Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru, Hydref 2017

84 Disgwylir i gyrff y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw) Yn Nangosyn 16 gwelir gwelliannau misol yng nghyfartaledd treigl hyd yr arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys yn rhan olaf 2016, gyda hyd cyfartalog yr arosiadau yn llawer is na chyfartaledd Cymru.

Dangosyn 16: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys ar gyfer wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017




Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

# Atodiad 1

## Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai acíwt y Bwrdd Iechyd

Dangosyn 17: statws CAG[15] asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton[16]

| Proses rhyddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Ysbyty'r Tywysog Siarl |
|---|---|---|---|
| **Cam 1** Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion | Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn. | | |
| | Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty. | | |
| | Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol. | | |
| | Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned. | | |
| | Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau. | | |
| **Cam 2** Achosion rhyddhau cymhleth | Cynhelir sgyrsiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol. | | |
| | Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebwyd i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal. | | |
| | Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr. | | |
| | Wedi sefydlu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh). | | |

[15] Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm; er enghraifft, byddai gwyrdd yn dangos bod y gweithgareddau a aseswyd yn cael eu cyflawni ym mhob achos.

[16] Gweler Troednodyn 2.

| Proses ryddhau | Arferion disgwyliedig | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Ysbyty'r Tywysog Siarl |
|---|---|---|---|
| **Cam 3** Bob tro wrth ryddhau | Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau acíwt ac adsefydlu, lle bo'n berthnasol. | | |
| **Cam 4** Bob tro wrth ryddhau | Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh. | | |
| | Gellir addasu'r ADRh yn unol ag ymateb yr unigolyn i driniaeth, er mwyn pennu dyddiad rhyddhau realistig. | Ceir tystiolaeth fod hyn yn digwydd ond dim ond ym mhumed ran o'r nodiadau achos a adolygwyd y gwelwyd tystiolaeth bod ADRh wedi'i gofnodi. | |
| | Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd. | | |
| | Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch. | | |
| | Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau. | | |
| Achosion rhyddhau cymhleth | Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf.<br>Ystyrir y model rhyddhau/trosglwyddo i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth. | | |
| | Y cydgysylltydd gofal yn coladu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth. | | |
| | Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo. | | |
| | Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol. | | |
| | Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwystra GIP). | Amherthnasol | |
| | Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano. | Amherthnasol | |
| | Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal. | Amherthnasol | |
| | Gwybodaeth am y Polisi Dewis. | Amherthnasol | |
| | Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector). | Amherthnasol | |
| **Cam 5** Bob tro wrth ryddhau | Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried. | | |

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Mehefin 2016

# Atodiad 2

## Methodoleg archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynlluniau rhyddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

Dangosyn 18: methodoleg archwilio

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Ffurflen Casglu Data – Cynllunio i Ryddhau Cleifion (gwybodaeth ar lefel y Bwrdd Iechyd) | Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.<br>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd Iechyd y ffurflen casglu data. |
| Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaeth lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i cleifion.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd un ffurflen ar gyfer Ysbyty'r Tywysog Siarl. |
| Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion. | Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch.<br>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty acíwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd un ffurflen; mae'r gwasanaeth yn ymdrin ag amryw o safleoedd ysbyty. |

| Dull | Manylion |
|---|---|
| Cais am ddogfennau | Buom yn adolygu dogfennau gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynodeb o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal integredig, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16. |
| Cyfweliadau | Cyfwelwyd â nifer o staff yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl gan gynnwys:<br>• rheolwyr wardiau;<br>• penaethiaid nyrsio;<br>• nyrs arweiniol ar gyfer gofal iechyd parhaus;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Dirprwy Brif Weithredwr;<br>• Pennaeth Therapi Galwedigaethol;<br>• Prif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf; a<br>• Chyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Plant, CBSRhCT |
| Defnydd o ddata presennol | Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3

## Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Dangosyn 19: Ymateb y Rheolwyr

Mae'r tabl yn dangos argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion Mae ein hasesiad o bolisi'r Bwrdd Iechyd yn dangos y gellid ei atgyfnerthu y tro nesaf y bydd hi'n bryd ei adolygu. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys:<br>• taflen rhyddhau cleifion;<br>• rhestr wirio wrth ryddhau cleifion;<br>• y gweithdrefnau uwchgyfeirio;<br>• trefniadau ar gyfer cleifion sy'n cael eu rhyddhau o adrannau damweiniau ac achosion brys/unedau asesu clinigol; | Mae'r polisïau cysylltiedig a'r dogfennau ategol yn datblygu i fod yn rhan annatod o'r gwasanaeth, ac wedi'u lleoli mewn un man.<br>Ceir gofynion clir ynghylch rhyddhau cleifion o adrannau damweiniau ac achosion brys ac o unedau asesu.<br>Ceir gwybodaeth gyson i gleifion am y broses a gweithdrefnau rhyddhau cleifion. | Nac ydy | Do | Bwriedir adolygu'r Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion ym mis Medi 2019, ond byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r ddogfen yn fuan er mwyn myfyrio ar yr argymhellion archwilio. | Medi 2018 | Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • dolenni electronig i'r Protocol ar gyfer Rhyddhau Cleifion ag Anghenion Tai o'r Ysbyty, y Protocol Dewis Llety a Fframwaith Gofal Parhaus y GIG; a<br>• siart lif neu goeden benderfyniadau er mwyn helpu i benderfynu a yw achos o ryddhau yn achos syml neu gymhleth, a'r llwybr i'w ddilyn. | | | | | | |
| A2 | Llwybr Rhyddhau: Nid yw'r camau ar y llwybr rhyddhau wedi'u nodi'n glir yn y Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• nodi pob llwybr rhyddhau ar ffurf dilyniant o gamau clir;<br>• sicrhau bod yr holl lwybrau ar gael yn yr un man – fel y Polisi Rhyddhau Cleifion, gan gynnwys dolenni | Bod y camau ar y llwybr rhyddhau cleifion wedi'u cyfleu'n glir ac yn hawdd i'r staff eu dilyn.<br>Bod y disgwyliadau o ran amseroedd gweithredu/ymateb staff amlddisgyblaeth yn glir. | Nac ydy | Do | Bwriedir adolygu'r Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion ym mis Medi 2019, ond byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r ddogfen yn fuan er mwyn myfyrio ar yr argymhellion archwilio. | Medi 2018 | Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | mewn polisïau/canllawiau eraill cysylltiedig; a<br>• sicrhau bod staff yn gwybod sut i gyrchu llwybrau rhyddhau cleifion. | | | | | | |
| A3 | Taflen i gleifion: Addasu'r daflen i gleifion mewn ysbytai cymunedol fel ei bod yn berthnasol i gleifion sydd yn aros mewn ysbytai acíwt, gan nodi'r canlynol:<br>• gwybodaeth am y broses ryddhau,<br>• sut y bydd y claf a'r teulu'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses ryddhau;<br>• trefniadau y gallai fod angen i'r claf eu gwneud (fel trefnu cludiant);<br>• gwybodaeth am ofal dilynol; a'r<br>• broses gwynion. | Caiff cleifion a gofalwyr wybod am y broses ryddhau a gofal dilynol, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. | Nac ydy | Yn rhannol | Mae taflen wybodaeth i gleifion eisoes wedi'i llunio a'i defnyddio ar safleoedd ysbyty cymunedol. Bydd y BIP nawr yn ystyried llunio taflen wybodaeth ar gyfer ysbytai acíwt. | Medi 2018 | Prif Swyddog Gweithredu |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriadwyd | Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy) | Derbyniwyd (Do/Naddo) | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Monitro perfformiad neu gydymffurfiaeth: Er bod Polisi Cynllunio i Ryddhau Cleifion y Bwrdd Iechyd a'i ddrafft o'r Protocol Rhyddhau Cleifion yn cynnwys ystod o fesurau ansoddol a meintiol i fonitro cydymffurfiaeth, nid yw'r mesurau perfformiad hyn wedi cael eu hadrodd yn systematig wrth y Bwrdd na'i bwyllgorau eto. Dylai'r Bwrdd adrodd ar y mesurau hyn yn rheolaidd. | Ceir dealltwriaeth o'r graddau y cydymffurfir â'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion.<br>Gellir ymchwilio i'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio ac asesu'r effaith ar y llif cleifion cyffredinol. | Ydy | Do | Mae angen i'r BIP a'i bartneriaid awdurdod lleol gwblhau a chymeradwyo'r protocol rhyddhau drafft fel cam â blaenoriaeth yn fuan yn 2018. | Medi 2018 | Prif Swyddog Gweithredu |

# Atodiad 4

## Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml yr oedd eu timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau, gan amrywio rhwng 'bob amser' a 'byth'. Yn Nangosyn 20 gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau a restrir yn 15 o'r timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru.

Dangosyn 20: pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
| Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth | 33% | 40% | 20% | 7% | 0% |
| Cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi | 53% | 40% | 7% | 0% | 0% |
| Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth | 60% | 27% | 13% | 0% | 0% |
| Cysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau | 60% | 27% | 7% | 7% | 0% |
| Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol | 67% | 33% | 0% | 0% | 0% |
| Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai | 27% | 20% | 40% | 7% | 7% |
| Dilysu data ar oedi wrth drosglwyddo gofal | 87% | 7% | 0% | 0% | 7% |

| Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion | Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Bob amser | Yn aml | Weithiau | Yn anaml | Byth |
| Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion yn brydlon | 33% | 13% | 40% | 13% | 0% |
| Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion | 67% | 20% | 0% | 7% | 7% |
| Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd | 27% | 27% | 20% | 7% | 20% |
| Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref | 33% | 27% | 27% | 7% | 7% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (Gweler Troednodyn 10)

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru